**ATODIAD 3**

**ARBEDION**

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £39.1m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

2. Unwaith eto eleni fel mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion, gwastraff, cludiant, a digartrefedd yn cynyddu hefyd, rydym wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.

3. Mae yna un cynllun arbedion gwerth £15,000 gan yr Adran Economi a Chymuned sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion yn berthnasol i 2024/25. Mae'r cynllun eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac felly nid yw'n destun penderfyniad eleni. Mae hefyd wedi dilyn proses statudol priodol, gweler isod er gwybodaeth.

| **Arbediad** | **Cyfanswm £** |
|---|---|
| Gwelliannau yn Neuadd Dwyfor i'w wneud yn fwy effeithlon wrth baratoi ar gyfer y dyfodol | 15,000 |

4. Ar 14 Chwefror 2023, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £6.4m o arbedion ar gyfer cyllideb 2023/24 ymlaen, a ddaeth i rym yn unol â'r proffil isod, gyda gwerth £2,848,630 wedi eu proffilio ar gyfer 2024/25.

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 YMLAEN**

| | **2023/24 £** | **2024/25 £** | **2025/26 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion (heb ysgolion) | 3,097,370 | 2,848,630 | 450,000 | **6,396,000** |

5. Yn ogystal â'r arbedion hyn, roedd gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau arbedion hefyd. Mae Atodiad 5 yn ymdrin yn benodol â chyllidebau'r ysgolion, ac fe welir yno fod gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion yn anorfod ar gyfer 2024/25. Capiwyd y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol, a pheidio cyflwyno toriadau ar y sector arbennig. Gweithredwyd y toriad yma dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m, £1.147m (7/12fed) sydd eisoes wedi ei weithredu yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12fed) pellach yn 2024/25, fel y gwelir yn y tabl isod:

| **Ysgolion (Sector)** | **2023/24** (7/12fed) **£** | **2024/25** (5/12fed) **£** | **Cyfanswm** **£** |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 541,600 | 386,900 | **928,500** |
| Uwchradd | 605,000 | 432,600 | **1,037,600** |
| Arbennig | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **1,146,600** | **819,500** | **1,966,100** |

6. Yn sgil y setliad ariannol gwael a hefyd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r lefelau chwyddiant uchel, mae'n anorfod fod rhaid i Awdurdodau Lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Mae adroddiad ar wahân ar raglen y Cabinet yn cynnwys rhestr o arbedion pellach arfaethedig ar gyfer eu gweithredu yn 2024/25 – 2026/27 sydd werth £5.2m, byddant yn dod i rym yn unol â'r proffil isod:

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2024/25 YMLAEN**

| | **2024/25** **£** | **2025/26** **£** | **2026/27** **£** | **Cyfanswm** **£** |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion | 1,965,760 | 2,860,300 | 343,090 | **5,169,150** |

7. Felly, i grynhoi, argymhellir gweithredu'r arbedion canlynol yng nghyllideb 2024/25:

| | **£** |
|---|---|
| Arbedion sydd wedi eu cymeradwyo'n flaenorol | 15,000 |
| Arbedion 23/24 wedi eu proffilio i 24/25 (heb gynnwys ysgolion) | 2,848,630 |
| Arbedion Ysgolion 23/24 wedi eu proffilio i 24/25 | 819,500 |
| Arbedion newydd 24/25 wedi eu proffilio i 24/25 | 1,965,760 |
| **CYFANSWM** | **5,648,890** |